
Rhifyn 44 Gwanwyn 2015

# Chwarae dros Gymru

Newyddion chwarae a gwybodaeth gan yr elusen genedlaethol dros chwarae



## Chwarae o gwmpas tu allan

play wales chwarae cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 2 | Golygyddol |
| 3-5 | Newyddion |
| 6-7 | Cyfweliad gyda'r Gweinidog |
| 8 | Chwarae o gwmpas tu allan |
| 9 | Cynghorion ar gyfer cefnogi plant i chwarae allan yn hyderus |
| 10-11 | Meithrin chwarae allan |
| 12-13 | Edrych yn ôl ar daith FAWR |
| 14 | Cymru – gwlad chwarae-gyfeillgar |
| 15 | Keith Towler yn myfyrio ar chwarae yng Nghymru |
| 16 | Play and Playwork: 101 Stories of Children Playing |


## Diolch yn fawr

Diolch o galon i bawb a gyfrannodd at y cylchgrawn hwn – allen ni ddim ei wneud heboch chi.

Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru*, yn ogystal â rhifynnau blaenorol, ar gael i'w lawrlwytho o **www.chwaraecymru.org.uk**

# Golygyddol

**Yn rhifyn diwethaf *Chwarae dros Gymru* (Haf 2014), adroddwyd bod ein cais am gyllid ar gyfer y tair blynedd nesaf o dan Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd (GCPT), Llywodraeth Cymru wedi bod yn aflwyddiannus.**

Mewn ymateb, cynhyrchodd staff Chwarae Cymru a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr gynllun gweithredu a oedd yn nodi'r blaenoriaethau allweddol a sut byddem ni'n gweithio i'w cyflawni. Yn ddiweddarach, roeddem wrth ein bodd pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai Chwarae Cymru'n derbyn arian grant am 18 mis hyd at fis Mawrth 2016.

Wrth gwrs, nid Chwarae Cymru yw'r unig sefydliad sy'n wynebu newidiadau ariannol. Ar draws Cymru, wrth i gyfyngiadau ar y gyllideb wasgu mwyfwy, mae awdurdodau lleol yn dod â'r gefnogaeth i ddarpariaeth â staff a mannau chwarae i ben. Mae llawer o grwpiau cymunedol lleol yn wynebu gorfod llenwi'r bylchau a adewir yn sgîl hyn.

Yn aml iawn, gyda chefnogaeth, cymunedau lleol sydd yn y sefyllfa orau i ymateb i anghenion chwarae plant lleol. Mewn achosion lle mae grwpiau lleol yn dod yn fwy gweithredol, rydym yn gobeithio bod awdurdodau lleol yn gallu cynnig lefel o gydweithrediad a chefnogaeth i grwpiau cymunedol sy'n ymateb i'r her hon.

Pan fyddwn ni'n holi plant am eu lles, maen nhw'n dweud wrthym eu bod yn gosod gwerth ar gyfeillgarwch a'r ffaith bod eu perthnasoedd wedi'u seilio ar weithgaredd, yn arbennig cael hwyl a chwarae gyda ffrindiau. Mae'r gwerth y mae plant yn ei osod ar agweddau ffisegol eu cymdogaeth yr un mor arwyddocaol, yn arbennig cael amser, lle a chaniatâd (gan rieni ac agwedd oddefgar gan aelodau'r gymuned) i chwarae.

Rydym ni'n gwybod, po fwyaf cyfeillgar yw'r amgylchedd cyffredinol i blant, mwyaf y byddan nhw'n chwarae tu allan. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol amlwg ar ganfyddiadau o fod yn ynysig ac wedi'u cau allan, nid i blant yn unig, ond hefyd i'r gymuned ehangach. Trwy gael rhyddid i ddewis a rheoli eu profiadau wrth chwarae, mae plant yn dysgu amdanynt eu hunain a sut i ryngweithio â'r hyn sydd o'u hamgylch, gan gynnwys y byd naturiol a'r gymuned y maent yn byw ynddi.

Mae cydlyniant cymunedol yn digwydd pan fydd gwahanol grwpiau o bobl yn cyd-dynnu'n dda, yn cael cyfleoedd tebyg mewn bywyd, ac yn ymddiried yn ei gilydd a'u sefydliadau lleol. O ran plant a'u mynediad i gyfleoedd chwarae, mantais byw mewn cymuned gydlynol yw eu bod yn teimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed, a bod eu hanghenion yn cael eu cwrdd. Mae plant yn deall beth ddisgwylir ganddynt fel aelodau o'u cymuned, ond yn fwy pwysig, mae oedolion sy'n byw ac yn gweithio yn y gymuned honno'n deall effaith eu gweithredoedd hwythau o ran teimlad plant eu bod yn cael caniatâd i chwarae a'u hymdeimlad o berthyn. Pan na fydd oedolion yn deall chwarae plant, mae'n haws i gamddealltwriaethau ddatblygu'n densiynau.

Mae cymuned gydlynol yn un chwareus – mae'n rhoi amser, lle a chaniatâd i blant chwarae a chymdeithasu gyda'u ffrindiau. Mae'n rhywle lle mae plant yn weladwy a lle rydyn ni'n clywed chwerthin.

**Mike Greenaway**
**Cyfarwyddwr, Chwarae Cymru**

Cyhoeddir *Chwarae dros Gymru* gan Chwarae Cymru ddwy waith y flwyddyn.
Cysylltwch â'r Golygydd yn:
Chwarae Cymru, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH
Rhif ffôn: 029 2048 6050 | Ebost: gwybodaeth@chwaraecymru.org.uk
Elusen Gofrestredig Rhif. 1068926 | ISSN: 1755 9243

Nid barn Chwarae Cymru o reidrwydd yw'r farn a fynegir yn y cylchgrawn hwn. Rydym yn cadw'r hawl i olygu cyn cyhoeddi. Nid ydym yn ardystio unrhyw rai o'r cynnyrch na'r digwyddiadau a hysbysebir yn neu gyda'r cyhoeddiad hwn. Argreffir y cyhoeddiad hwn ar bapur a gynhyrchwyd o goedwigoedd cynaliadwy.
Crewyd gan Carrick | carrickcreative.co.uk

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Newyddion

## Chwarae Cymru – y diweddaraf

Yn flaenorol rydym wedi adrodd bod cais Chwarae Cymru am gyllid ar gyfer y tair blynedd nesaf o dan Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd (GCPT), Llywodraeth Cymru wedi bod yn aflwyddiannus. Ym mis Medi 2014 roeddem wrth ein bodd i dderbyn ariannu grant gan Lywodraeth Cymru tan fis Mawrth 2016.

Bydd hyn yn galluogi Chwarae Cymru i drosglwyddo gweithgareddau penodol fydd yn cefnogi blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â chwarae a threchu tlodi, yn cynnwys cefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau yn unol â Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol.

Bydd Chwarae Cymru yn datblygu fel canolfan ragoriaeth ryngwladol ar chwarae; yn cyfrannu at ddatblygiad cynllun gweithlu 10 mlynedd y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae ac yn cyfranogi mewn cyfarfodydd strategol ar lefel genedlaethol, rhanbarthol ac awdurdod lleol.

Bydd yr ariannu hefyd yn sicrhau na fydd dysgwyr y cwrs Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith ($P^3$) sydd eisoes yn ymgymryd â'r cymhwyster hwn neu rai sy'n cofrestru eleni, dan unrhyw anfantais.

Rydym ar hyn o bryd yn cefnogi Coleg Cymunedol YMCA Cymru i ymsefydlu fel canolfan SQA, i ddarparu ei gymwysterau $P^3$ ei hun, gan gyfrannu at gynaliadwyedd tymor hwy $P^3$.

Yn anffodus, cafodd dwy swydd eu dileu yn sgîl derbyn llai o arian. Ymadawodd Richard Trew, Swyddog Cymwysterau a Michelle Craig, Cynorthwy-ydd Swyddfa, ddiwedd mis Hydref 2014. Hefyd, oherwydd salwch tymor hir, bu i Tillie Mobbs, Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Datblygu'r Gweithlu, adael Chwarae Cymru ar ddiwedd 2014, ar ôl gweithio i'r mudiad am 12 mlynedd.

## *Ymunwch â* Chwarae Cymru

Mae Chwarae Cymru yn hyrwyddo hawl pob plentyn a pherson ifanc i chwarae ac i gyfranogi yn eu cymuned leol fel rhan o'u bywyd bob dydd. Po fwyaf o leisiau sy'n ymuno â ni i gefnogi hawl plant i chwarae, y cryfaf y byddwn.

**Dewch yn aelod o Chwarae Cymru i ychwanegu eich llais a chryfhau'r floedd.**

**Mae aelodaeth flynyddol Chwarae Cymru ar gael am gyn lleied a £10!**

Fel rhan o fuddiannau aelodaeth byddwn yn:

- Eich hysbysu ynghylch ymgyngoriadau allweddol ac yn gofyn am eich cyfraniad ar gyfer ein hymatebion
- Eich hysbysu am ddatblygiadau newyddion a gwaith ymchwil newydd
- Dosbarthu e-fwletinau aelodau bob deufis
- Rhoi gostyngiad ichi ar brisiau mynediad i'n digwyddiadau ac yn rhoi pris arbennig ichi ar ein cyhoeddiadau.

Mae **aelodaeth cyswllt** yn agored i bob sefydliad ac unigolyn sy'n byw yng Nghymru.

Mae **aelodaeth gyswllt ryngwladol** yn agored i unrhyw sefydliad neu unigolyn sy'n byw neu'n gweithio y tu allan i Gymru hoffai gefnogi gwaith Chwarae Cymru.

Ymunwch â ni heddiw trwy gwblhau ein ffurflen gofrestru ar-lein ar:
**www.chwaraecymru.org.uk/cym/aelodaeth**

# Canllaw arfer dda Sipsiwn a Theithwyr




Mae Chwarae Cymru wedi gweithio gyda phrosiect Y Daith Ymlaen, Achub y Plant i gynhyrchu *Canllaw arfer dda ar gyfer darpariaeth chwarae a'r blynyddoedd cynnar: Datblygu a rheoli safleoedd Sipsiwn a Theithwyr*.

Mae'r canllaw arfer dda wedi ei gynllunio ar gyfer unrhyw un sy'n gyfrifol am, neu sydd ynghlwm â, rheoli neu ddatblygu safleoedd newydd, neu safleoedd sy'n bodoli eisoes, ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

Mae wedi ei ddylunio i ddarparu gwybodaeth glir a chryno er mwyn cefnogi awdurdodau lleol i ystyried a chynnwys darpariaeth chwarae a'r blynyddoedd cynnar wrth ddatblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd, a rhai sy'n bodoli eisoes. Mae'n cynnwys gwybodaeth neilltuol a fwriedir i'n helpu i ddeall a mynd i'r afael â meysydd penodol sy'n peri pryder. Mae hefyd yn darparu offer ymarferol, cam-wrth-gam, templedi a modelau o ddarpariaeth lwyddiannus.

I ddatblygu'r canllaw fe sefydlodd ac ymgynghorodd Chwarae Cymru a'r prosiect Y Daith Ymlaen â grŵp ffocws o ddarparwyr yn ystod y broses ddrafftio a defnyddio eu profiadau i ddatblygu'r modelau ac i fynd i'r afael â'r materion pwysicaf. Mae prosiect Y Daith Ymlaen yn cefnogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr ifanc i gael llais.

**Mae'r canllaw arfer dda ar gael i'w lawrlwytho ar: www.chwaraecymru.org.uk/cym/sipsiwnatheithwyr**




# Prosiect Ar Agor bob Awr

Mae Chwarae Cymru wedi derbyn arian gan Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm i beilota'r pecyn cymorth *Defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae y tu allan i oriau addysgu*.

Bydd y prosiect Ar Agor bob Awr yn peilota'r pecyn cymorth trwy werthuso effeithiolrwydd yr offer, a mesur yr effaith ar blant, ysgolion a'r gymuned ehangach. Mewn cydweithrediad â Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd (Astudiaethau Plentyndod Cynnar ac Addysg) bydd y prosiect yn nodi tair ysgol i beilota'r pecyn cymorth. Bydd y prosiect yn ymgysylltu â chymunedau'r ysgolion a grwpiau lleol er mwyn llunio dadansoddiad o'r opsiynau, a fydd yn nodi'r model mwyaf priodol wrth ddefnyddio tiroedd yr ysgol ar gyfer chwarae y tu allan i oriau addysgu. Ar ôl dod o hyd i'r opsiwn gorau, bydd y prosiect yn gweithio'n agos gyda'r ysgol a'r gymuned ehangach i hwyluso defnydd o'r tiroedd.

Yn dilyn y peilot, bydd y pecyn cymorth yn cael ei ddiweddaru, a chaiff y canfyddiadau eu dosbarthu. Hefyd, fel rhan o'r prosiect, byddwn yn hybu defnydd o'r pecyn cymorth a'i fanteision, ac yn cefnogi eraill i'w roi ar waith drwy ddefnyddio'r un dulliau ag yn y cyfnod peilot.

**Mae'r pecyn cymorth ar gael i'w lawrlwytho ar: www.chwaraecymru.org.uk/cym/sipsiwnatheithwyr**

THE MILLENNIUM STADIUM CHARITABLE TRUST
YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL STADIWM Y MILENIWM

# Comisiynydd Plant Cymru

Penodwyd yr Athro Sally Holland yn Gomisiynydd Plant newydd Cymru. Rôl y Comisiynydd Plant yw gweithredu fel hyrwyddwr annibynnol dros blant a phobl ifanc, gan eiriol dros eu buddiannau a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol.

Cyn ei phenodi roedd Sally Holland yn Athro yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd, ac yn Gyfarwyddwr a sylfaenydd CASCADE, sef Canolfan Ymchwil Gofal Cymdeithasol i Blant. Mae ei meysydd arbenigedd yn cynnwys hawliau plant, barn plant Cymru am ddinasyddiaeth a hunaniaeth, plant sy'n derbyn gofal, amddiffyn plant a mabwysiadu. Mae hefyd wedi ymgyrchu dros anghenion a hawliau plant, ac wedi gwneud gwaith ymchwil ar hynny.

Rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru.

Bydd cyfnod Keith Towler yn y rôl hon yn dod i ben gyda phenodi'r Comisiynydd newydd. Ar sail pwysigrwydd eu cyfleoedd i chwarae ym marn plant, ni ddylem gael ein synnu bod Keith, mewn ymateb i ddisgwyliadau plant yn ystod y saith mlynedd diwethaf, wedi dod yn eiriolwr cryf dros hawl plant i chwarae, ac wedi sicrhau bod ei swyddfa'n cefnogi gwaith Chwarae Cymru. Mae Keith wedi annerch mewn llawer o ddigwyddiadau, yn cynnwys cynadleddau byd yr International Play Association yn 2011 a 2014, cynadleddau Ysbryd Chwarae Cymru, yn ogystal â chyfrannu at ddrafftio Sylw Cyffredinol 17 ar Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Rydym wrth ein bodd bod Keith yn mynd i barhau i gefnogi chwarae plant trwy ymuno â Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru.

**I ddarllen myfyriadau Keith ar bwysigrwydd chwarae yn ei waith, gweler yr erthygl ar dudalen 15.**

# Prentisiaeth Uwch i sector gwaith chwarae Cymru

Yn dilyn cynnig llwyddiannus i Gomisiwn Cyflogaeth a Sgiliau y Deyrnas Unedig (UKCES), mae SkillsActive wedi datblygu Prentisiaeth Uwch newydd, arloesol ar gyfer y sector gwaith chwarae yng Nghymru. Mae'r datblygiad hwn yn ategu Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar Sgiliau (Ionawr 2014) a'r cynllun gweithredu mwy diweddar sy'n darparu sylfaen iddo, a bydd yn darparu llwybr dilyniant o'r cyfleoedd sydd ar gael ar Lefelau 2 a 3 ar hyn o bryd. Gellir ystyried y datblygiad hefyd fel ymateb i anghenion sector gwaith chwarae Cymru.

Bydd y rhaglen hon, y Brentisiaeth Uwch gyntaf ar gyfer y sector Hamdden Actif, Dysgu a Lles yng Nghymru, yn cefnogi darparu cymwysterau a hyfforddiant gwaith chwarae, a bydd felly'n cael effaith gadarnhaol ar y sector ac ar Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Bydd y Brentisiaeth yn darparu cyfle i weithwyr chwarae a swyddogion datblygu chwarae gael datblygiad proffesiynol lefel uwch, a bydd yn cefnogi cyflawni digonolrwydd chwarae yn y dyfodol.

Fel rhan o'r broses, mae SkillsActive wedi gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector gwaith chwarae. Mae SkillsActive yn rhagweld y bydd y fframwaith newydd ar gael yn gynnar yn 2015, a bydd hefyd yn cynnwys Diploma CACHE newydd ar Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae Uwch.

**www.skillsactive.com**

## Cyfryngau Cymdeithasol

www.facebook.com/ChwaraeCymru

twitter.com/ChwaraeCymru

# Cyfweliad gyda'r Gweinidog

Ym mis Medi 2014 penodwyd Lesley Griffiths AC yn Weinidog Cymunedau a Threchu Tlodi newydd Llywodraeth Cymru – sy'n cynnwys cyfrifoldeb am chwarae plant. Buon ni'n sgwrsio gyda'r Gweinidog yn ddiweddar am ei hatgofion chwarae yn ystod ei phlentyndod, a gwaith Llywodraeth Cymru i gefnogi chwarae plant.

**Beth rydych chi'n ei gofio fwyaf am chwarae pan oeddech chi'n blentyn?**

Bydden i'n chwarae allan yn y stryd gyda phlant eraill. Roeddwn i wrth fy modd yn sgipio, yn chwarae hopsgots, ac yn taflu pêl yn erbyn wal. Roeddwn i bob amser yn cael fy annog i fynd i'r parc, oedd 15 munud i ffwrdd. Pan fyddai hi'n boeth, ac roedd hi'n ymddangos yn boeth bob amser pan oeddwn i'n blentyn, roeddwn i eisiau cael fy mhwll padlo allan. Dros wyliau'r Nadolig fe ddaeth ffrindiau draw gyda'u merched bach, a'r cyfan roedden nhw eisiau ei wneud oedd clopian o gwmpas yn esgidiau sodlau uchel fy merched i, sydd wedi tyfu i fyny nawr. Fe gofies innau mod i'n hoffi mynd clip-clop lan a lawr y stryd yn esgidiau mam, a mwynhau'r sŵn roeddwn i'n ei wneud.

**Beth yw eich hoff atgofion am chwarae?**

Roeddwn i wrth fy modd yn gwagio cwpwrdd bwyd y teulu a chwarae siop. Roedd gen i lawer o gefndryd a fyddai'n dod i chwarae, a byddwn i'n gorfodi fy rhieni a nain a taid i ddod mewn i'r siop a thalu am bethau roedden nhw eisoes wedi'u prynu! Roeddwn i'n mwynhau bod allan ar fy meic – bydden ni'n beicio lan a lawr y ffordd. Roedd yn ddiogel iawn, o beth rwy'n cofio, achos doedd dim llawer o geir.

**Rydym ni'n gwybod eich bod chi wedi ymddiddori mewn chwarae plant dros y blynyddoedd. Beth rydych chi'n gobeithio ei gyfrannu i'ch portffolio newydd sy'n cynnwys cyfrifoldeb am chwarae plant?**

Rydw i wedi ymwneud ers amser hir iawn â 'The Venture' yn Wrecsam (ond dim ond ers i mi gael fy ethol yn 2007 rydw i wedi bod yn noddwr), sy'n enwog fel enghraifft ragorol o'r cyfleoedd chwarae mae modd eu darparu i blant.

Rydw i am barhau i godi proffil chwarae. Mae'n wirioneddol bwysig ein bod ni'n sicrhau bod holl blant Cymru'n cael cyfleoedd chwarae o ansawdd uchel. Yn ddiweddar fe es i ar ymweliad â sesiwn chwarae yn y pentref lle rwy'n byw, ac roedd yn ddiddorol iawn siarad â'r arweinwyr chwarae am sut roedden nhw'n sicrhau eu bod nhw'n darparu beth roedd y plant a'r bobl ifanc eisiau, nid beth rydyn ni'n meddwl eu bod nhw eisiau. Roeddwn i'n synnu'n fawr eu bod nhw ddim eisiau'r llithren na'r troellwr diweddaraf, dim ond lle, felly rwy'n credu ei bod hi'n bwysig iawn i ni wrando ar blant a phobl ifanc. Roedd yn sicr yn wers i mi.



Un peth rwy'n frwd iawn yn ei gylch ym mhob agwedd ar fywyd Gweinidogion yw sicrhau bod gennym ni arfer gorau, a'n bod ni'n ei rannu.

**Yn eich barn chi, beth allen ni, aelodau o'r gymuned, ei wneud i sicrhau ei bod yn rhwyddach i blant allu chwarae tu allan?**

Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i wneud hynny'n haws ac yn fwy diogel. Does dim llawer mwy o anawsterau, ond oherwydd y cyfryngau, rydyn ni'n cael ein gwneud yn ymwybodol iawn o'r perygl. Ond mae'n bwysig dros ben bod plant yn gallu mynd allan a chwarae, a dychwelyd at fyd natur. Mae arafu traffig yn hollbwysig. Mae angen i ni, fel aelodau o'r gymuned, gydnabod pwysigrwydd twmpathau cyflymdra – os caiff bywyd un plentyn ei achub, bydd yn werth yr ymdrech.

Pan fydda i'n gwneud cymorthfeydd stryd, bydda i'n clywed pobl yn cwyno am blant allan yn chwarae pêl-droed – mae'n fater o fod yn oddefgar a sicrhau ein bod ni'n deall mai chwarae yw gwaith plant. Mae'n wirioneddol bwysig eu bod nhw'n gallu chwarae heb deimlo o dan bwysau.

**Sut gallwn ni sicrhau bod tlodi profiadau – er enghraifft cael eu hamddifadu o gyfleoedd chwarae cyfoethog – yn derbyn yr un sylw a ffocws â thlodi economaidd?**

Mae chwarae'n hanfodol bwysig i les a datblygiad plentyn. Mae'n cael effaith ar iechyd a hapusrwydd plant, a'u hymdeimlad o fod yn rhan o'u cymuned. Mae'n bwysig

eu bod nhw'n teimlo fel mwy nag ychwanegiad – maen nhw'n rhan o'r gymuned felly mae angen i ni sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Mae pwysigrwydd chwarae yn cael ei gydnabod yn ein *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi* 2012-2016, ac ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae CCUHP yn pwysleisio pwysigrwydd chwarae, yn enwedig i blant sy'n byw mewn tlodi, ac yn cynghori bod parciau a meysydd chwarae'n arbennig o bwysig yn ystod cyfnod economaidd eithriadol o anodd – rydyn ni'n gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y cyfleusterau hynny yno. Rydyn ni'n gofyn eu bod nhw'n cynnwys datblygiadau cynllunio, parciau, meysydd chwarae, defnydd o fannau agored, a threchu tlodi yn eu hasesiadau a'u cynlluniau gweithredu digonolrwydd chwarae. Wrth i gyllidebau llywodraeth leol ddod o dan bwysau cynyddol, mae cau meysydd chwarae wedi bod yn bosibilrwydd mewn rhai rhannau o Gymru, ond mae cynghorau cymuned wedi bod yn derbyn cyfrifoldeb am rai o'r mannau chwarae hyn; mae'n bwysig iawn ein bod ni'n eu cefnogi nhw wrth symud ymlaen.

**Yn aml, pan fyddwn ni'n sôn am annog plant i fod yn fwy actif, yr ymateb traddodiadol yw hybu eu hymgysylltiad â chwaraeon yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol, ond mae tystiolaeth gynyddol fod plant yn fwy actif wrth chwarae tu allan. Sut mae sicrhau bod cyfleoedd i blant chwarae yn cael eu gweld fel rhywbeth yr un mor werthfawr â chwaraeon strwythuredig?**

Mae'n bwysig i ni sicrhau bod plant yn cael amser i weithgaredd corfforol yn yr ysgol, ond mae hefyd yn bwysig i'w datblygiad corfforol eu bod nhw'n parhau i fod yn actif tu allan i'r ysgol. Rwyf fi newydd ddod yn aelod o Grŵp Gweithredol Gweithgaredd Corfforol Llywodraeth Cymru, oherwydd fy mod i'n cydnabod pwysigrwydd gweithgaredd corfforol yng nghyswllt trechu tlodi. Fel grŵp, rydyn ni'n edrych ar ffyrdd o annog gweithgaredd corfforol ar draws poblogaeth Cymru. Wrth i ni edrych ar y posibilrwydd o lunio cynllun gweithgaredd corfforol i Gymru gyfan, rwyf fi am sicrhau bod chwarae'n rhan o hynny, fel ei fod yn cael ei gydnabod fel rhywbeth pwysig iawn.

**Mae plant yn dweud wrthym ni bod pwysau cynyddol ar eu hamser chwarae – yn yr ysgol mae rhai amserau chwarae ac amser cinio wedi cael eu lleihau. Hefyd, y tu allan i'r ysgol, mae plant yn dweud wrthym ni bod rhaid iddyn nhw wneud gwaith cartref, a'u bod nhw'n cael eu hannog i fynd i glybiau a gweithgareddau allgyrsiol. Yn eich barn chi, beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau ein bod ni i gyd yn cadw cydbwysedd rhwng chwarae ac awydd ymddangosiadol i weld plant a phobl ifanc yn gwneud rhywbeth trefnus, strwythuredig drwy'r amser?**

Pan oedd fy merched i'n fach, roeddwn i'n teimlo mod i'n eu gyrru nhw i bob math o lefydd, ac yna weithiau roedd rhaid i chi stopio. Pan fyddai'r gwyliau'n cyrraedd, a'r gwersi nofio, bale a cherddoriaeth yn dod i ben am y tro, byddech chi'n sylweddoli pa mor bwysig oedd eu bod yn cael amser heb ei strwythuro a'r gallu i fynd allan a gwneud beth bynnag roedden nhw eisiau. Fel yn achos oedolion, mae llawer o bwysau ar amser plant – gwaith cartref a gwersi – ond mae'n bwysig iawn eu bod nhw'n cael amser i chwarae.

Mater i ysgolion yw darparu digon o amser a chyfleoedd chwarae o ansawdd da yn ystod amser cinio ac amser chwarae. Mae angen yr egwyliau yna ar blant; maen nhw'n wirioneddol bwysig ar gyfer eu gweithgaredd corfforol a'u bywyd cymdeithasol – mae sgiliau cymdeithasol yr un mor bwysig â sgiliau academaidd – ac i'w datblygiad emosiynol a gwybyddol. Yn y gorffennol, rydyn ni wedi darparu cyllid trwy'r grant Cynyddu Cyfleoedd Chwarae ar gyfer storio a chyfarpar chwarae i'w ddefnyddio y tu allan, ac mae gennym ni gynlluniau fel 5x60 a Champau'r Ddraig.

**Mae'r 'ddyletswydd digonolrwydd chwarae' sy'n rhan o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn ddeddfwriaeth arloesol. Beth fydd hynny'n ei olygu i blant yng Nghymru mewn gwirionedd?**

Bydd yn cynyddu cyfleoedd chwarae i blant ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd chwarae. Mae angen i ni sicrhau bod pob plentyn yn cael ystod eang o gyfleoedd heriol a diddorol i chwarae. Rydyn ni am sicrhau cymunedau mwy diogel, iach, sy'n cefnogi chwarae'n fwy, fel bod plant yn gallu mynd allan gyda'u ffrindiau a'u teuluoedd a dysgu amdanynt eu hunain a'u hamgylchedd.

Rydyn ni wedi cyhoeddi canllaw statudol *Cymru – gwlad sy'n creu cyfle i chwarae*, sy'n nodi ein bwriadau ar gyfer chwarae a'r gofynion ar awdurdodau lleol i gydymffurfio â dyletswydd digonolrwydd chwarae. Mae awdurdodau lleol wedi cwblhau asesiadau a chynlluniau gweithredu digonolrwydd chwarae, felly dylai hynny sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant ym mhob ardal. Rwy'n rhoi arian i Chwarae Cymru er mwyn cefnogi awdurdodau lleol i roi eu cynlluniau gweithredu ar waith. Rydyn ni hefyd yn ariannu Groundwork Cymru i ddarparu cyfleoedd chwarae i blant ledled Cymru.

**Mae diddordeb a pharch rhyngwladol at y gwaith mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ym maes chwarae plant. Sut deimlad yw gwybod bod llygaid y byd arnoch chi?**

Mae'n dda. Mae gennym ni lawer i ymfalchïo ynddo. Rwy'n falch iawn bod Cymru'n arwain y ffordd ym maes chwarae plant. Mae gan y gymuned ryngwladol feddwl uchel ohonon ni. Roedden ni'n falch iawn o dderbyn y Wobr Hawl i Chwarae gan yr International Play Association yn 2011, ar ran Cymru fel gwlad. Rydyn ni wedi symud yr agenda ymlaen ers hynny, ac mae'n bwysig ein bod ni'n gweithio gyda'n holl bartneriaid i sicrhau bod chwarae ar frig yr agenda. Mae'n wirioneddol bwysig ein bod ni'n parhau i arwain y ffordd i sicrhau bod plant yng Nghymru yn cael cyfleoedd chwarae da.

# Chwarae o gwmpas tu allan

Oscar yw fy enw i, dwi'n 11 oed, a dw i'n byw ym Mhrestatyn, yng Ngogledd Cymru. Dwi'n mwynhau cael pob math o hwyl yn y dre ac ar y stryd fawr leol, er enghraifft dringo adeiladau, chwarae yn y parc a rhedeg yn rhydd gyda fy ffrindiau. Weithiau mae plant yn cael eu camfarnu gan eu rhieni am fynd allan a chwarae gyda'u ffrindiau, ac rydw i eisiau newid hynny.

Fel arfer, bydda i'n chwarae ym Mharc Ffordd yr Orsaf, ac yn mynd i'r siopau, gan ddefnyddio fy arian poced i brynu pysgod a sglodion o'r siop sglodion leol gyda fy ffrindiau April, Ben, Daniel a Nick.

Dwi'n mwynhau gwthio trolis o gwmpas yn yr archfarchnad gyda fy ffrind April – rydyn ni'n cymryd tro i wthio ein gilydd mewn troli. Dwi hefyd yn mwynhau rhedeg rhydd gyda fy ffrindiau hŷn Callum a Tyler, ac rydyn ni'n fflipio ar y twyni tywod, lle mae tirlithriad hir perffaith gafodd ei greu gan y llifogydd y llynedd. Dwi wrth fy modd yn dringo waliau ac adeiladau yn agos at y traeth, ac rydyn ni'n dod o na gyda clipiau ffilm anhygoel ar yr ipod a'r camera.

Un diwrnod roeddwn i'n rhedeg yn rhydd ar rai biniau mawr gyda fy ffrind Millie pan ddaeth plismon heibio a gofyn i fi ddod lawr. Gan ei fod e'n blismon, fe wnes i, ond doeddwn i ddim yn fodlon iawn. Byddai wedi gwneud synnwyr gofyn i fi ddod i lawr o ben to, ond doeddwn i ddim yn creu niwsans nac yn difrodi dim, ac er hynny, doeddwn i ddim yn cael gwneud; alla i ddim coelio'r peth.

Mae fy ysgol wedi ceisio gwella chwarae i blant trwy adael i ni fynd i'r cae yn y gaeaf, ond yn y diwedd, mae wedi gwneud pethau'n waeth. Nawr, os byddwn ni'n fwdlyd unwaith, fe gawn ni rybudd ar lafar, ddwywaith, mae'n rhaid i ni aros ar ôl, a thair gwaith, rydyn ni'n cael ein gwahardd o'r cae am y tymor cyfan. Dydyn ni ddim yn cael gwisgo'n esgidiau ysgol ar y cae, ac mae hynny'n wastraff amser, achos gallen ni sychu ein esgidiau ar y mat.

Peth arall sy'n ein atal ni rhag chwarae tu allan yw'r traffig; mae pobl yn gyrru'n erchyll o gyflym, felly byddwch yn ofalus wrth yrru, os gwelwch yn dda.

Rydw i bob amser yn hapus i chwarae gyda fy ffrindiau, ac alla i ddim dweud 'na' wrth chwarae tu allan. Fel arfer, byddwn ni'n penderfynu ble i gwrdd drwy decst neu ar Xbox Live. Allai dim byd fy atal rhag chwarae tu allan heblaw cyfrifoldebau fel gwaith cartref a glanhau fy stafell wely!

Mae'n drist bod rhai o fy ffrindiau eraill yn methu chwarae tu allan oherwydd bod eu rhieni'n poeni am eu diogelwch. Yn fy marn i, dylai chwarae allan gymryd camau bach bach – un cam ar y tro, nes eich bod chi a'ch plentyn yn creu perthynas lle rydych chi'n ymddiried yn eich gilydd gymaint fel bod e neu hi yn gwneud pethau maen nhw'n gallu pasio mlaen i'r genhedlaeth nesaf.



*Oscar yn chwarae o gwmpas tu allan pan oedd yn iau*

# Cynghorion ar gyfer cefnogi plant i chwarae allan yn hyderus

Mae cyfrifoldeb ar bob un ohonom i gefnogi a pharatoi ein plant i chwarae allan yn hyderus yn eu cymuned. Mae chwarae allan o fudd i blant, yn ogystal â'u rhieni, eu gofalwyr a'r gymuned ehangach. Mae cefnogi plant i chwarae allan yn eu cymuned yn cyfrannu at greu cymuned chwarae-gyfeillgar a chydlynol.

Efallai y bydd y cynghorion yma'n ddefnyddiol er mwyn annog rhieni a gofalwyr a chymunedau lleol i gefnogi plant i chwarae allan yn hyderus:

## 1. Paratoi plant i fod yn ddiogel ar y stryd

Mae strydoedd yn rhan sylweddol o ofod cyhoeddus mewn cymunedau. Gallwn baratoi plant o oedran ifanc trwy ddweud wrthynt a dangos iddynt sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar ac o amgylch y strydoedd.

## 2. Ystyried ein harferion gyrru personol

Yn aml bydd rhieni'n pryderu am draffig cyn caniatáu i blant chwarae allan. Fel gyrwyr, gallwn yrru ar gyflymder diogel yn yr un modd y byddem yn dymuno i eraill yrru ar y strydoedd preswyl ble y bydd ein plant ninnau'n chwarae.

## 3. Helpu plant i ddod i adnabod eu cymdogaeth

Pe byddem ninnau'n dibynnu llai ar deithio yn y car yn ein cymunedau lleol, byddai plant yn dod i adnabod eu strydoedd lleol. Gallai cerdded i ac adref o gyfleusterau lleol, fel y siop, yr ysgol a'r parc, ein helpu i ddynodi ffyrdd, gyda'n plant, i'w cadw'n ddiogel.



## 4. Bod yn gymunedol-gyfeillgar

Gallwn ddod i adnabod pobl leol, cymdogion a theuluoedd eraill, a chytuno gyda'n gilydd i gadw llygad ar y plant i gyd. Bydd hyn yn meithrin ymdeimlad o gymuned ddiogel, fydd yn caniatáu i fwy o blant chwarae allan yn amlach, ac i fod yn fwy diogel yn gwneud hynny.

## 5. Ymddiried yn y plant

Gallwn gytuno gyda'n plant i ble ac am ba hyd y gallant fynd allan i chwarae. Os ydynt yn adnabod eu hardal leol, eu cyfeiriad a'u rhif ffôn, pwy y gallant alw arnynt, a sut i ddweud yr amser, bydd yn helpu wrth wneud y trefniadau hyn.

## 6. Bod yn realistig

Bydd cadw ein pryderon mewn persbectif a gwybod am gymdogion a thrigolion lleol y gallwn alw arnynt os oes gennych unrhyw bryderon o gymorth. Mae buddiannau chwarae'r tu allan yn llawer mwy nag unrhyw risg.

## 7. Sicrhau newid

Gallwn ymuno â phobl leol eraill i ymgyrchu dros newidiadau i'n cymdogaeth allai wneud ein hardaloedd lleol yn fannau ble y gall plant chwarae allan yn hyderus. Gallwn hyrwyddo pwysigrwydd chwarae allan trwy siarad â phobl eraill yn ein cymdogaeth neu trwy gynnal digwyddiadau cymunedol a gadael i eraill wybod amdanynt.

# Meithrin chwarae allan

Mae *Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Amgylchedd Naturiol* yn bapur briffio sydd wedi ei gynhyrchu gan BAAF (Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain) ar gyfer Learning through Landscapes (LTL) gyda chefnogaeth gan Chwarae Cymru.


Wedi ei anelu at ofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal, mae'r papur briffio yn:

- amlinellu'r rhesymau dros bwysigrwydd rhoi mynediad i blant sy'n derbyn gofal at chwarae tu allan ym myd natur
- trafod manteision a hawliau plant i chwarae, yn cynnig syniadau ynglŷn â mathau o chwarae allan ym myd natur
- hyrwyddo dull budd-risg at ofal, yn hytrach na dull gwrth risg.

Fe'i datblygwyd fel rhan o'r Prosiect Meithrin Chwarae Allan, sy'n anelu at wella canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol plant sy'n derbyn gofal drwy gefnogi gofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol i ddarparu gweithgareddau rheolaidd ac aml o ansawdd uchel a chwarae allan ac yn yr amgylchedd naturiol. Caiff y prosiect ei reoli drwy LTL, gydag arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a'r Waterloo Foundation. Mae Chwarae Cymru a BAAF Cymru yn bartneriaid yn y prosiect.

I roi blas o'r papur briffio dyma rannau ohono.

## Cyflwyniad




Mae trawma wedi cael effaith ar lawer o blant sy'n derbyn gofal, a hynny oherwydd eu profiad o gamdriniaeth ac esgeulustod. Efallai y byddant wedi profi colled hefyd, yn ogystal â newid yn eu cylch bywyd, a hynny yn sgîl gwahanu brodyr a chwiorydd neu darfu ar leoliadau. Er bod sylw mawr i'r ffaith bod plant sy'n derbyn gofal yn agored i niwed, mae'n bwysig cydnabod hefyd, fodd bynnag, fod pob unigolyn yn agored i niwed ac yn wydn ar yr un pryd[1]. Mae'n hanfodol nad yw'r system sy'n sail i'r ddarpariaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn amharu ar eu hawliau i archwilio a dysgu drwy chwarae, gan gynnwys chwarae allan ym myd natur.

## Chwarae allan a chyswllt gyda byd natur – pam mae'n bwysig?

Mae tystiolaeth sy'n profi bod perthynas plant gyda byd natur yn rhan hanfodol o'u datblygiad sy'n eu cynorthwyo i gyrraedd eu llawn botensial. Mae sawl rheswm pam mae plant yn profi llai o amser ym myd natur erbyn hyn, er enghraifft, ofnau rhieni ynglŷn â thraffig neu 'beryglon dieithriaid', a cholli mannau gwyrdd sydd â mynediad cyhoeddus iddynt[2].

Mae pryderon fod plant a phobl ifanc yn treulio amser sylweddol gyda thechnolegau cyfryngol. Mae nifer wedi sylwi fod hyn yn lleihau'r amser a dreulir yn chwarae allan ym myd natur, ac yn ei dro bod hynny'n lleihau chwarae creadigol

ac ymwneud cymdeithasol. Dangosodd astudiaeth gan Brifysgol Caergrawnt[3] fod plant yn fwy abl i adnabod cymeriadau Pokémon na rhywogaethau o fywyd gwyllt Prydain (78 y cant o'i gymharu â 53 y cant i'r llall). Er y cydnabyddir bod gan dechnoleg sawl mantais i blant a phobl ifanc, mae angen cydbwysedd ac i ofalwyr greu cyfleoedd eraill i ddysgu a chwarae.

Mae gan bob gofalwr a gweithiwr proffesiynol sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal gyfrifoldeb i hyrwyddo eu hiechyd a'u lles emosiynol[4]. Er bod angen mwy o ymchwil i fanteision mynediad at fyd natur, mae'r darganfyddiadau hyd yma'n ategu'r hyn y mae nifer o bobl yn ei deimlo, sef bod byd natur yn llesol i ni! Mae'r darganfyddiadau hyd yma'n awgrymu fod cyswllt â byd natur yn gallu bod yn effeithiol ym meysydd:

- trin plant sydd â hunanddisgyblaeth wael
- gorfywiogrwydd ac Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd
- ymdrin â phryder a straen
- strategaethau i leihau troseddu a thrais
- lefelau canolbwyntio mewn plant
- lleihau straen
- datblygiad gwybyddol iach mewn plant
- cymunedau cryfach
- cynyddu'r ymdeimlad o les ac iechyd meddwl.[5]

Mae rôl y gofalwr maeth yn hanfodol er mwyn hyrwyddo ymarfer corff, diet iach a chyfleoedd i chwarae allan. Mae hyn yn golygu treulio amser ym myd natur.

## Sut allwn ni hyrwyddo hyn?

Mae rhai cydrannau hanfodol sydd angen eu rhoi mewn lle er mwyn hyrwyddo mynediad plant sy'n derbyn gofal at fyd natur a chwarae allan.

**Caniatâd** – Mae ar blant angen caniatâd gan ofalwyr er mwyn cael chwarae allan. Mae angen ystyried amgylchiadau penodol y plentyn sy'n derbyn gofal o ran diogelwch a risg. Ond, ni ddylai hyn arwain at atal plentyn rhag chwarae allan mewn amgylchedd naturiol. Dylai asiantaethau gefnogi gofalwyr maeth yn y dasg hon drwy gydnabod gwerth chwarae allan i brofiadau bywyd y plentyn sy'n derbyn gofal.

**Amser** – Trwy wneud amser i blant chwarae allan ym myd natur, rydym yn hyrwyddo ac yn gwerthfawrogi rhyddid plant, eu hannibyniaeth a'u dewis, ac mae'r nodweddion hyn yn chwarae rhan hanfodol yng ngwydnwch plant, eu gallu i ymdrin â straen a phryder, a'u lles cyffredinol.

**Lle** – Mae nodweddion llefydd o ansawdd i blant yn cynnwys cyfle i ryfeddu, cyffro a'r annisgwyl, ond yn bennaf oll cyfleoedd nad oes gormod o drefn na rheolaeth oedolion arnynt. Mae'r llefydd hyn yn hanfodol i ddiwylliant y plant eu hunain a'u hymdeimlad o le a pherthyn. Gorau oll os yw llefydd plant yn rhai awyr agored. O gael dewis, mae'n well gan blant chwarae allan ac maen nhw'n gweld gwerth yn yr annibyniaeth a'r cyfleoedd i ddarganfod mae'n eu cynnig.

**Deunyddiau** – Er bod plant yn gallu ac y byddant yn chwarae yn unrhyw le a gyda bron unrhyw beth, mae yna adnoddau y gallwn ni eu darparu fydd yn hwyluso ac yn annog chwarae. Gall deunyddiau o'r fath fod yn rhad ac yn hygyrch – y cyfan sy'n rhaid ei wneud yw gadael pentwr ohonynt i blant eu harchwilio a chewch eich rhyfeddu gan y ffordd y mae chwarae plant yn ysgogi ac yn cydio. Nid oes angen llawer o deganau ar blant sy'n chwarae allan gydag eraill.

## Casgliad

Mae'r papur briffio hwn wedi ystyried pwysigrwydd hyrwyddo chwarae awyr agored ym myd natur i blant sy'n derbyn gofal. Mae sawl astudiaeth wedi dangos hoffter plant o lefydd naturiol neu wyllt i chwarae ynddynt[6], ac nid oes tystiolaeth i awgrymu y byddai plant sy'n derbyn gofal yn teimlo'n wahanol i hyn. Gellid awgrymu hefyd fod gan blant sy'n derbyn gofal fwy i elwa ohono na'u cyfoedion o ran y straen o ddioddef camdriniaeth, cael eu tynnu oddi wrth eu rhieni a symud wedyn i wahanol leoliadau mewn gofal. Yn y byd technolegol heddiw, gyda chyfathrebu cyflym a llai a llai o lefydd chwarae, mae'n bwysig ein bod yn rhoi cyfleoedd i blant chwarae allan ym myd natur. Mae'r prosiect Meithrin Chwarae Allan yn gweithio gyda gofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol yng Nghymru i hyrwyddo cyfleoedd o'r fath i blant sy'n derbyn gofal.

**Mae'r papur briffio ar gael i'w lawrlwytho ar: www.chwaraecymru.org.uk/cym/taflennigwybodaeth**

## Cyfeiriadau


1. Cairns, K. a Stanway, C. (2013) *Learn the Child: Helping looked after children to learn* (ail argraffiad). Llundain: BAAF.
2. Bird W. (2007) *Natural Thinking: Investigating the links between the natural environment, biodiversity and mental health* (argraffiad cyntaf). Llundain: RSPB.
3. Ibid.
4. Cyfnewidfa Iechyd Plant Sy'n Derbyn Gofal (2012) *Supporting and Promoting the Health Needs of Looked after Children in Wales: A practice guide*. Caerdydd: Plant yng Nghymru.
5. *Natural Thinking: Investigating the links between the natural environment, biodiversity and mental health.*
6. Ibid.

# Edrych yn ôl ar daith FAWR

CRONFA LOTERI FAWR BIG LOTTERY FUND

**Cronfa'r Loteri Fawr (MAWR) sydd wedi gwneud y buddsoddiad unigol mwyaf hyd yma yn narpariaeth chwarae plant yng Nghymru, trwy raglen strategol a oedd yn ceisio cael effaith gadarnhaol ar chwarae plant. Bu Chwarae Cymru yn cefnogi cyflwyno rhaglen Chwarae Plant MAWR, ac wrth iddi ddod i ben, rydym yn ystyried y gwahaniaeth mae'r rhaglen wedi'i wneud.**

## Cefndir

Yn hwyr yn 2006, lansiodd MAWR y rhaglen Chwarae Plant, gyda'r nodau canlynol:

- Datblygu mannau chwarae newydd i blant yn eu cymunedau
- Datblygu cyfleoedd chwarae sy'n darparu lle i blant ddewis sut maen nhw'n chwarae
- Datblygu cyfleoedd chwarae 'mynediad agored â staff'.

Blwyddyn yn ddiweddarach cyhoeddodd MAWR gyllid Rownd Un, sef £2.2 filiwn, i greu isadeiledd a fyddai'n darparu ac yn cynllunio ar gyfer darpariaeth chwarae plant ar draws holl ranbarthau Cymru – crëwyd 10 prosiect isadeiledd, rhai ohonynt wedi'u lleoli mewn cymdeithasau chwarae oedd eisoes yn bodoli. Nododd rhanddeiliaid allweddol pob prosiect isadeiledd fylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer chwarae plant, cytunwyd ar flaenoriaethau buddsoddi ar lefel leol, a chynlluniwyd prosiectau i ymateb iddynt trwy Rownd Dau y rhaglen.

Cwblhaodd y prosiectau isadeiledd ymarferiadau archwilio rhanbarthol oedd yn mapio'r ddarpariaeth chwarae (er enghraifft mannau chwarae lleol, cynlluniau chwarae mynediad agored cynhwysol, mannau chwarae antur, a phrosiectau chwarae symudol ac allgymorth). Bu'r archwiliadau o




*New Model Army Photography*

gymorth i nodi blaenoriaethau lleol, ac roeddent yn darparu tystiolaeth ar gyfer datblygu'r ceisiadau ar gyfer prosiectau chwarae yn Rownd Dau.

Bu dathlu yng ngwanwyn 2010 pan ddyfarnodd MAWR grantiau gwerth £9.5 miliwn i 10 prosiect chwarae, oedd yn cwmpasu pob rhanbarth yng Nghymru. Datblygwyd yr holl brosiectau i greu mentrau a chyfleusterau chwarae newydd mewn cymunedau lleol ledled Cymru. Roedd y rhaglen Chwarae Plant yn canolbwyntio ar ddulliau newydd o ymdrin â darpariaeth chwarae â staff, ac roedd disgwyl i brosiectau gynnig mentrau chwarae creadigol a oedd yn cynnig her a chyfleoedd amrywiol.

## Nod cyffredin

Ar draws Cymru roedd elfennau unigol ac unigryw i'r prosiectau, ond roedd ganddynt hefyd lawer yn gyffredin. Nod pob un o'r prosiectau oedd annog ymgysylltiad cymunedol, cefnogi cynnwys plant anabl a phlant ar y cyrion, a meithrin hyder teuluoedd a phobl leol fel y gallai pob plentyn chwarae y tu allan, boed hynny gyda chefnogaeth oedolion wedi'u hyfforddi neu beidio. Datblygwyd y model mewn ymateb uniongyrchol i blant oed ysgol, a ddywedodd fod y mannau lle bydden nhw'n dewis chwarae y tu allan ac yn agos at eu cartrefi.

Un o dasgau allweddol y prosiectau chwarae oedd dechrau goresgyn rhai o'r rhwystrau oedd yn atal plant rhag chwarae y tu allan. Rhennid pryder nad oeddem bellach yn gweld plant yn chwarae y tu allan fel rhan o'n bywyd beunyddiol, a bod hynny'n cael effaith niweidiol ar ganfyddiad a disgwyliadau pobl o ran plant a phobl ifanc.

Bu gweithwyr chwarae yn helpu aelodau o'r gymuned a rhieni i gydnabod yr angen i blant brofi ystod eang o gyfleoedd a phrofiadau chwarae, a helpu i feithrin hyder a sicrwydd. Roedd y prosiectau'n cefnogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio mannau lleol oedd eisoes yn bodoli ar gyfer eu hanghenion chwarae – gan eu helpu i fod yn fwy gweladwy trwy ddarparu mwy o amser a llefydd i chwarae o fewn pellter hwylus i'w drws ffrynt.



## Sicrhau etifeddiaeth

Roedd prosiectau'r rhaglen Chwarae Plant yn gyfle unigryw i gefnogi hawl plant i chwarae y tu allan yn eu cymunedau. Trwy ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau i ddatblygu a chynnal y ddarpariaeth chwarae, cafwyd cyfraniadau gwirioneddol i gydlyniant cymunedol a datblygiad cymunedau bywiog, gwydn. Ymhlith y canlyniadau eraill buddiol a welsom roedd:

- Sefydlu grwpiau, canolfannau a sefydliadau newydd i hwyluso cyfleoedd chwarae parhaus
- Recriwtio ac ymgysylltu â gwirfoddolwyr i helpu i ddarparu sesiynau chwarae neu weithgareddau
- Darparu sesiynau chwarae yn y gymuned
- Agweddau mwy cadarnhaol at chwarae
- Gwelliannau ffisegol i amgylcheddau chwarae
- Cynaliadwyedd parhaus darpariaeth chwarae gynyddol
- Mwy o weithwyr proffesiynol mewn sectorau eraill sydd â phrofiad o chwarae a gwaith chwarae.

Mae'r hinsawdd ariannol bresennol wedi arwain at doriadau sylweddol i wasanaethau ym mhob awdurdod lleol a chorff trydydd sector yng Nghymru, ac mae cynnal swyddi staff wedi bod yn her. Fodd bynnag, mae etifeddiaeth bwysig i'r prosiectau chwarae.

Ar draws Cymru, mae'r ddarpariaeth chwarae a ddatblygwyd ac a gyflwynwyd gan y prosiectau Chwarae Plant wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i blant, rhieni a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt. Mae'r cyfleoedd i blant chwarae mewn mannau awyr agored cyhoeddus wedi cael eu hestyn, ac mae gan blant a rhieni hyder i'w defnyddio.

Mae'r prosiectau wedi dangos y gall darpariaeth â staff fod yn bwysig o ran y rhwydwaith ehangach o gefnogaeth i blant a theuluoedd, fel eu bod yn byw bywydau iachach a hapusach, a hefyd yn teimlo'n rhan o'u cymuned.

Mae'r cyfnod ariannol anodd yr ydym ni'n ei wynebu ar hyn o bryd yn darparu cyfle a risg i'r math yma o ddarpariaeth. Mae'r ymrwymiad cenedlaethol i chwarae, a ddilynwyd gan fuddsoddiad sylweddol MAWR, wedi helpu i ddadlau dros fanteision darpariaeth chwarae â staff. Mae'r prosiectau Chwarae Plant ledled Cymru wedi helpu i droi mannau awyr agored yn llefydd ar gyfer chwarae, defnyddio'r dychymyg a chymdeithasu.

**www.chwaraecymru.org.uk/cym/rhaglenchwaraeplant**

# Cymru gwlad chwarae-gyfeillgar

Mae Ardal Chwarae Nyth yr Hebog yn rhan o Goed Moel Famau ym Mryniau Clwyd ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONB) Dyffryn Dyfrdwy. Ers blynyddoedd lawer, mae'r safle wedi bod yn gyrchfan poblogaidd i gerddwyr a beicwyr mynydd oherwydd ei leoliad godidog a'i rwydwaith da o lwybrau.



Yn 2013, rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru wahoddiad i Chwarae Cymru ddod i gyfarfod safle i drafod opsiynau posibl ar gyfer creu man chwarae a oedd yn annog mwy o deuluoedd â phlant ifanc i ymweld â'r safle i brofi'r coetir a'i fwynhau.

Datblygwyd y syniadau cychwynnol o'r cyfarfod hwn i greu brîff dylunio, ac yn dilyn hynny cynhaliwyd ymarferiad tendro. Brîff syml oedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru: dylunio a chreu man chwarae a oedd yn cydweddu â'r adnoddau naturiol ar y safle, ac yn gwneud defnydd da ohonynt, gan gynnwys nant, coetir brodorol a phlanhigfa, a llwybr cerdded byr cylchol.

Rhannwyd y cynllun ar gyfer y man chwarae gyda'r gymuned leol i sicrhau cefnogaeth leol i'r prosiect. Dyfarnwyd arian cyfatebol ar gyfer y prosiect gan Cadwyn Clwyd Cyfyngedig, asiantaeth datblygu gwledig, i gydnabod y manteision a ddeuai i'r economi dwristiaeth leol yn sgîl y prosiect.

Cyn bod modd cychwyn ar unrhyw waith, roedd angen caniatâd cynllunio ar gyfer rhai elfennau o'r man chwarae, a gwnaethpwyd gais i Gyngor Sir Ddinbych. Er i rai pryderon gael eu mynegi, yn bennaf ynghylch effeithiau posibl y man chwarae ar yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, ymdriniwyd yn ddigonol â'r rhain gan reolwr safle Cyfoeth Naturiol Cymru, a rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y prosiect.

Mae'r strwythurau chwarae yn cynnwys strwythur tŵr unigryw ar ffurf nyth bren anferth, o bren llarwydd Ewrop heb ei drin (rhywogaeth y ceir hyd iddi ar y safle) sy'n cynrychioli nythod yr adar sy'n byw yn y coetir o amgylch, ac yn cynnig llu o gyfleoedd i blant chwarae'n gymdeithasol ac yn gorfforol, yn ogystal â golwg llygad-deryn o ganopi'r coetir. Mae boncyff cedrwydden anferth, y cerfiwyd y pren allan o'i chanol, yn rhoi cyfle i'r plant iau gropian, dringo ac ymgynnull y tu mewn iddi, ac yn weledol, dyma'r mwyaf deniadol o'r strwythurau pren a osodwyd.

Elfen fwyaf unigryw'r nodweddion chwarae yw'r ardal chwarae dŵr, a luniwyd o gerrig naturiol o'r safle. Yno defnyddir dŵr sy'n llifo i mewn o'r nant drwy ei sianelu i'r man chwarae, lle gall plant ryngweithio â'r dŵr drwy ddefnyddio ffyn, cerrig a deunyddiau eraill naturiol y ceir hyd iddynt ar y safle.

Rhoddwyd rhannau o'r man chwarae hwn, gan gynnwys pont gastan sigledig, at ei gilydd fel rhan o weithdy cymunedol. Mae'r prosiect wedi llwyddo yn gyffredinol, ac mae wedi annog mwy o blant i ymweld â'r coetir a mwynhau golygfeydd a seiniau natur trwy chwarae.

Mae Cymru – Gwlad Chwarae-Gyfeillgar yn ymgyrch gan Chwarae Cymru i helpu i greu rhwydwaith o gefnogaeth ar gyfer chwarae ar draws Cymru. Rhannwch yr hyn sy'n digwydd yn lleol, sydd unai'n gwarchod neu'n gwahardd hawl plant i chwarae, ar dudalen yr ymgyrch ar Facebook.

**on.fb.me/gwladchwaraegyfeillgar**

# Keith Towler

## yn myfyrio ar chwarae yng Nghymru

**Ar ddiwedd ei gyfnod yn Gomisiynydd Plant Cymru, mae Keith Towler yn myfyrio ar bwysigrwydd hawl plant i chwarae yn ei waith.**



Saith mlynedd yn ôl doedd gen i ddim syniad y byddai chwarae'n dod yn rhan mor bwysig o'm bywyd pan oeddwn i'n Gomisiynydd Plant. Fe ddechreuodd fy nhaith ym maes chwarae yn ystod fy misoedd cyntaf yn y swydd. Yn wir, roedd yr adroddiad cyntaf gyhoeddais i fel Comisiynydd yn trafod mynediad plant ag anableddau i chwarae. Roedd yn benllanw prosiect yr oedd fy rhagflaenydd wedi'i gychwyn, yn dadansoddi cynnwys strategaethau chwarae awdurdodau lleol ac yn casglu barn plant a phobl ifanc ag anableddau.

Saith mlynedd yn ddiweddarach rwy'n dal yn eithriadol ymwybodol o bwysigrwydd chwarae i blant a phobl ifanc. Yn ystod fy mlwyddyn olaf yn y swydd, roeddwn i'n ddigon ffodus i gael fy mhenodi i weithgor a oedd yn cynorthwyo i ddrafftio Sylw Cyffredinol i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, oedd am i Bartïon Gwladol ar draws y byd roi mwy o sylw i hawliau plant o dan Erthygl 31. Yma yng Nghymru ac ar draws y byd, mae cyhoeddi Sylw Cyffredinol 17 ar Erthygl 31 yn rhoi cyfle i bob plentyn ymarfer eu hawl i chwarae.

Mae Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau mawr ymlaen o ran hyrwyddo a gweithredu chwarae fel hawl i bob plentyn a pherson ifanc, ac maen nhw'n uchel iawn eu parch ar y llwyfan rhyngwladol. Ond alla i ddim helpu teimlo bod yr enw da rhyngwladol hwn mewn perygl. Pan wnes i leisio fy mhryderon ynghylch diffyg gweledigaeth i blant yn Llywodraeth Cymru yn ddiweddar, doedd ymateb Gweinidogion Cymru ddim mor gadarnhaol ag yr oeddwn i wedi gobeithio; i'r gwrthwyneb, roedd amharodrwydd i dderbyn fy meirniadaeth.

Rhan o'm gwaith i fel Comisiynydd Plant yw herio a gofyn cwestiynau, felly fe wna i. Rwyf yn aneglur ynghylch sut bydd penderfyniad Llywodraeth Cymru i leihau'r cyllid i Chwarae Cymru yn cyfrannu at ei gweledigaeth bolisi strategol ar chwarae yn y tymor hir. Mae Chwarae Cymru yn uchel iawn ei barch yn rhyngwladol, ac mae'n sicr yn haeddu derbyn adnoddau ar lefel sy'n adlewyrchu hynny.

Alla i ddim helpu meddwl, er bod gennym ni ddeddfwriaeth arloesol yma yng Nghymru, nad yw hynny'n cael yr effaith uniongyrchol a obeithiwyd ar blant a phobl ifanc ar lawr gwlad. I roi enghraifft, rwy'n cau'r cylch, ac yn dychwelyd at fynediad plant a phobl ifanc ag anableddau at chwarae. Yn sgîl Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i sefydlu dyletswydd yng nghyswllt chwarae. Cyflwynodd y Mesur hwn Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae sy'n golygu bod rhaid i awdurdodau lleol gyflawni Asesiadau Digonolrwydd Chwarae. Fe wnes i eu hadolygu nhw i gyd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar blant a phobl ifanc o gymunedau ac aelwydydd difreintiedig, ac ar blant a phobl ifanc ag anableddau. Mae'r ddarpariaeth o ran cyfleoedd chwarae a hamdden i blant a phobl ifanc ag anableddau, fel yr adroddwyd yn yr Asesiadau hyn, yn amrywiol, gyda nifer o awdurdodau lleol hyd yn oed yn cael anhawster i nodi faint o blant a phobl ifanc ag anableddau oedd yn byw yn eu hardaloedd.

Mae gwaith gwych yn parhau hefyd, gyda rhai awdurdodau'n darparu tystiolaeth o fframwaith polisi ac ymarfer sy'n anelu'n bendant at gyflawni Erthygl 31 ar gyfer plant ag anableddau. Ond mae'r darlun yn dal yn anghyson.

Mae Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn wedi'i wreiddio yng nghyfraith Cymru. Bwriad y ddeddfwriaeth 'arloesol' hon oedd 'gwneud newid cadarnhaol i sut caiff pob cefnogaeth a gwasanaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru eu dylunio a'u cyflwyno yn y dyfodol'.

Petai modd i mi adael un neges yn atseinio yng nghlustiau pobl wrth i mi adael fy rôl fel Comisiynydd Plant, dyma fyddai'r neges honno: gadewch i ni ofalu bod deddfwriaeth a luniwyd yng Nghymru yn gwneud gwahaniaeth ymarferol, cadarnhaol i bob un plentyn, beth bynnag yw eu hamgylchiadau.

# Play & Playwork:
# 101 Stories of Children Playing


Chantelle Haughton, Cymrawd Addysgu a Darlithydd mewn Addysg ac Astudiaethau Plentyndod Cynnar ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd, yn adolygu llyfr diweddaraf yr Athro Fraser Brown.

**Wnaeth y llyfr hwn ddim fy siomi. Roeddwn i'n hoff iawn o ffordd chwareus a phryfoclyd yr awdur o ddefnyddio *vignettes* i oleuo a chysylltu profiadau a theori, gan fy nenu i ystyried ymarfer a pholisi.**

Mae'n destun hygyrch, llawn gwybodaeth, y bydda i'n bendant yn ei ddefnyddio gyda fy myfyrwyr is-raddedig o hyn allan; bydd gweithwyr chwarae a darlithwyr yn cael eu hysgogi i feddwl gan y llyfr hwn. Gallai darllen y llyfr hwn fod yn werthfawr i athrawon yng Nghymru sy'n hwyluso addysgeg chwarae a chyfleoedd i gynllunio dysgu trwy chwarae, gan ei fod yn darparu persbectif arall.

Wrth gwrs, mae tensiynau'n bodoli rhwng chwarae, gwaith chwarae, y diffiniadau o waith chwarae a'r gwrthdaro o amgylch rôl oedolion, felly fe wnaeth Brown i mi feddwl pa mor hanfodol yw cymryd amser i ystyried perspectif wrth ddadansoddi, myfyrio a dehongli ymarfer.

Mae Brown yn mynd ati'n bwyllog i archwilio'r gwahaniaethau a'r cysylltiadau rhwng chwarae a gwaith chwarae, gan edrych ar SPICE (Rhyngweithio cymdeithasol, Gweithgaredd corfforol, Ysgogiad deallusol, Cyflawniad creadigol, Sefydlogrwydd emosiynol), acronym sy'n hollbresennol mewn hyfforddiant ac addysg sy'n gysylltiedig â chwarae, ond mae Brown yn gofyn cwestiynau hollbwysig ac yn cynnig atebion ynghylch sut a pham gallai SPICE fod yn annigonol ynddo'i hun i ddadansoddi canlyniadau ac ansawdd gwaith chwarae.




Er bod Brown yn awgrymu y gallai fod gwerth mewn cadw at ddull SPICE ym maes chwarae, er mwyn sicrhau cydnabyddiaeth o ddifri i bwysigrwydd a gwerth cysylltiedig â chanlyniadau, efallai bod angen cyflawni a chyhoeddi mwy o ymchwil academaidd sy'n gysylltiedig ag ymchwil seiliedig ar ymarfer, fel nad yw gwaith chwarae a'i werth yn cael eu tanbrisio.

Trwy senarios chwarae go iawn mae'r testun hwn yn archwilio'n fanwl 11 llinyn (ffactorau allweddol sydd o fudd i chwarae): rhyddid, hyblygrwydd, cymdeithasoli a rhyngweithio cymdeithasol, gweithgaredd corfforol, symbyliad deallusol, creadigrwydd, datrys problemau, cydbwysedd emosiynol, darganfod yr hunan, safiad moesegol, rhyngweithio oedolion a phlant ac apêl gyffredinol.

Dull o ddadansoddi yw hwn sy'n cael ei gydnabod a'i ddefnyddio'n helaeth yn y DU ac UDA, ond gan nad wyf yn arbenigwraig ym maes chwarae, dyma'r tro cyntaf i mi ddarllen amdano a theimlo fy mod i'n deall gwreiddiau'r syniadau, a hefyd o bosibl wahanol bersbectifau ar y syniadau sy'n sail ar gyfer y llinynnau hyn. Dyma strwythur y llyfr, ac roedd yn anodd i mi ei roi i lawr; doedd e ddim yn teimlo fel gwerslyfr y byddwn i'n defnyddio rhannau ohono yn unig!

> Gofynnodd fy mab Frazer, sydd yn ei arddegau, beth oedd mor dda am y 'gwerslyfr gwaith' roeddwn i'n ei ddarllen yn ystod y gwyliau (rhwng dathliadau teuluol a gêmau bwrdd) – roedd i'n methu rhoi'r llyfr lawr tan y diwedd, lle roedd Brown yn crynhoi ei feddyliau ynghylch 'hyblygrwydd cyfuniadol' a sut mae hynny'n ganolog i'r broses ddatblygiadol, ac eto mae gennym ni'r broblem gyfoes hon sy'n destun dadlau, gyda gwaith chwarae'n cael ei docio i'r gwreiddiau wrth i amgylcheddau chwarae plant ddod yn llai a llai hyblyg.

Oherwydd ei fod wedi gofyn, fe wnes i neilltuo amser i siarad â Frazer am rai o'r 101 o storïau, ac roedd yn ymddiddori'n fawr, a hefyd yn cael ei ddifyrru gan stori *'Miranda and Josh: I'm gonna play 'til I die! That's what I'm gonna do, I never want to stop playing…'*.

Mae Brown yn cael hyd i ffordd o atgoffa'r darllenydd yn barhaus ynghylch 'natur baradocsaidd chwarae' a sut mae'n amhosibl mewn gwirionedd deall holl arwyddocâd cynnil posibl chwarae i blentyn.